**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 15 MEHEFIN 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod mynychu o bell Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Paul Cunningham, Adele Davies-Cooke, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Dan Rose, Linda Thew, a Antony Wren

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Y Cynghorydd Mike Peers - eitem 7.2 (061507) ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Steve Copple - eitem 7.3 (063458) ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Marion Bateman - eitem 7.4 (063312) ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Ted Palmer (yn bresennol)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd: Bernie Attridge

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Arweinydd Tîm – Rheoli Datblygu, Uwch Swyddogion Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 1. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Richard Jones y Cynghorydd Mike Peers yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Antony Wren. Ni chyflwynwyd unrhyw enwebiadau eraill.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Mike Peers fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Richard Lloyd gysylltiad personol ar eitem 7.1 (Materion Cyffredinol – Fferm Solar Bretton Hall) oherwydd ei fod yn byw yn agos i leoliad y safle.

## 3. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau i ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan y Cyngor:

http://modgov:9070/documents/s71079/15th%20June%202022%20-%20late%20obs%20sheetV2.pdf

4. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2022 fel cofnod cywir, fel y cynigwyd ac eiliwyd gan y Cynghorwyr Richard Jones a Chris Bithell.

**PENDERFYNWYD**:

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

5. **EITEMAU I'W GOHIRIO**

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd unrhyw eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

6. **MAE ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

7. **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.05 pm)

.................................................

**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau:http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## Y PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 15 MEHEFIN 2022

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| Materion Cyffredinol | | Fferm Solar Bretton Hall - Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol: Adroddiad Effaith Lleol - Cais i Awdurdod Dirprwyedig Ymateb | | Dirprwyo Adroddiad Effaith Lleol y Cyngor, sy'n cyd-fynd â'r argymhellion, ac amodau a awgrymir ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol Fferm Solar Bretton Hall i swyddogion mewn ymgynghoriad ag aelodau lleol (Gogledd-ddwyrain Brychdyn a Saltney Ferry). |
| 016507 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Amlinellol - datblygiad preswyl o hyd at 94 annedd gyda phob mater wedi eu cadw yn ôl ac eithrio'r fynedfa | Siaradodd Guy Evans, yr asiant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Mike Peers, yr Aelod ward leol, yn erbyn y cais. | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad. |
| 063458 | Cyngor Cymuned Ysceifiog | Cais Llawn am adeiladu estyniad a gwaith ailwampio rhannol i Felin y Wern, Nannerch. | Siaradodd James Saunders, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd Simon Stack, preswylydd lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Steve Copple, yr Aelod ward leol, yn erbyn y cais. | Rhoi’r caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi eu gosod yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 063312 | Cyngor Cymuned Llaneurgain | Cais Llawn - Trawsnewid ac ymestyn Uned Ddiwydiannol yn swyddfa a warws ym Mharc Gwledig Llaneurgain, Ffordd yr Ystâd, Llaneurgain | Siaradodd Huw Evans, yr asiant, o blaid y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran Cymdeithas Preswylwyr Parc Gwledig Llaneurgain<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Marion Bateman, yr Aelod ward leol, yn erbyn y cais. | Rhoi'r caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi eu gosod yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |